DEUPARTH FFORDD EI GWYBOD

G-olwg

Cylch-lythyr Newyddion Ysgol Gyfun Garth Olwg
Chwefror 2017

Campws Garth Olwg

Gair gan y Prifathro: Mae cryn sylw wedi bod i'r ffaith bod cytundeb PFI yr ysgol yn dod i ben ym mis Ionawr 2017. Mae prosesau bellach yn eu lle er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn wrth i ni a'r Awdurdod Lleol gymryd gofal am y campws. Rydym yn llwyr hyderus na fydd y disgyblion yn gweld unrhyw newid a bydd y campws yn gweithredu fel ag y mae ar hyn o bryd. Ymlaen Campws Garth Olwg Ymlaen!

Casglu nwyddau i'r di-gartref

Cyn y Nadolig, bu disgyblion Blwyddyn 9 a 10 yn casglu nwyddau ar gyfer y digartref.
Cafodd rhai o'n disgyblion gyfle i fynd â'r rhoddion i'r man casglu'n Llantrisant er mwyn gweld y gwaith oedd yn cael ei wneud. Roedd yr elusen Llamau yn ddiolchgar iawn i'r disgyblion am eu rhoddion.

Rufus a'r Rapsgaliwns!

Dydd Gwener y 9fed o Ragfyr ymwelodd Rufus Mufasa, rapydd a chantores fyd enwog â'r ysgol i gynnal gweithdy gyda Blwyddyn 9 a 10. Crëwyd pum darn o farddoniaeth gyda chymorth Rufus yn seiliedig ar luniau pen agored a gwledydd gwahanol. Ysgrifennodd fy ngrŵp i ddarn ar ddiwylliant Cuba a'r grŵp arall ar Jamaica. Yna, rapiodd Rufus ddarnau Cymraeg a Saesneg i guriad ei throed yn gyflym, roedd hi'n anhygoel! Ysbrydolodd ni i chwarae gyda geiriau a'u troi mewn i rap neu gerdd. Byrfyfyriodd unigolion rap Gymraeg ar y diwedd gan ddefnyddio'r holl dechnegau ddysgodd Rufus i ni. Roedd y diwrnod yn wych; dysgodd bawb ddigon am gerddi a rapio. Hoffwn ddiolch ar ran pawb i Rufus a Mrs Llwyd am ei gwahodd a gwneud y diwrnod yn werth chweil! - *Gan Llew Jones, Blwyddyn 10*.

Taith yr Adran Gelf a Ffotograffiaeth i Ferlin

Fel rhan o'r adran Gelf a Ffotograffiaeth, aeth y chweched dosbarth ac aelodau Blwyddyn 10 i Ferlin ym mis Ionawr. Roedd hi'n daith hanesyddol iawn a dysgom lawer am hanes yr Almaen. Fe wnaeth y disgyblion fwynhau ymweld â'r atyniadau twristiaid megis y Reichstad, y tŵr teledu a chofeb yr Holocost. Yn ogystal â hyn, aethom ar daith dywys o Wal Berlin. Dywedodd un o'r disgyblion, "Sioc oedd clywed am brofiadau trist y teuluoedd a chafodd eu gwahanu o ganlyniad i'r wal". Cafon ni gyfleoedd unigryw i dynnu lluniau anhygoel o'r ddinas yn yr eira tra'n amddiffyn ein hunain rhag yr oerni! Hefyd cawsom gyfle i brofi a gweld celf y ddinas mewn amgueddfa ac yn y galeri Ochr Ddwyreiniol. Roedd y gwaith celf yma'n cael ei weld tu allan ar Wal Berlin. Roedd yn anhygoel i weld ac ysbrydolodd hyn waith y disgyblion celf. Roedd hi'n daith mor ddiddorol, lle ddysgom nifer o bethau am gelf, hanes a diwylliant y wlad. Gwnaeth yr holl ddisgyblion fwynhau'r profiad unigryw ac rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i fynd i le mor anhygoel. Hoffwn ddiolch ar ran pawb i'r athrawon am drefnu ac rydym yn edrych 'mlaen at ein taith nesaf, falle rhywle twymach y tro nesaf! - *Gan Layla Powell, Blwyddyn 12*

Dyddiadau allweddol: Mawrth 6ed – 10fed - **@yGarth**
(Cyfnod tracio 2 – cyfle i ddisgyblion adlewyrchu ar eu cynnydd yn ystod y 10 wythnos diwethaf)

Dyddiadau Hanner Tymor	Dechrau	Diwedd
1 (Hydref 2016)	5/9/16	21/10/16
2 (Hydref 2016)	31/10/16	16/12/16
3 (Gwanwyn 2017)	3/1/17	17/2/17
4 (Gwanwyn 2017)	27/2/17	7/4/17
5 (Haf 2017)	24/4/17	26/5/17
6 (Haf 2017)	5/6/17	21/7/17

DIWRNODAU HMS: Chwefror 17eg 2017

Nosweithiau trafod â rieni	
Blwyddyn 7	**27ain Ebrill**
Blwyddyn 8	*12fed Ionawr*
Blwyddyn 9 (Noson opsiynau)	**2il o Fawrth**
Blwyddyn 9	**16eg Mawrth**
Blwyddyn 10	**30ain o Fawrth**
Year 11	*13eg Hydref*
Blwyddyn 11 (Noson opsiynau)	*26ain Ionawr*
Blwyddyn 12 & 13	*1af Rhagfyr*

Chwaraeon

Pencampwyr Ardal Pontypridd!

Ar ôl arhosiad enfawr, roedd y ddau dîm yn barod. Cerddodd y bechgyn tuag at Lanhari a dechreuodd y gêm. Roedd pawb yn nerfus. Roeddem yn taclo'n galed ac yn ennill ciciau cosb. Tapiodd Ioan y bêl a hedfanodd gan sgorio cais ymosodol. Methodd Harry'r gic ond roedd e'n ddigon i ni fynd mewn i'r ail hanner yn ennill. Wedi geiriau cyflym hanner amser derbynion ni'r bêl a buom yn brwydro am oesoedd. Ar ôl trio'n galed, cawsom ein gwobrwyo wrth i Kian Iwyddo i sgorio dau gais. Roedd y bechgyn wedi blino'n lan ond fe wnaethom barhau i frwydro. Rhedodd asgellwr Llanhari lawr yr asgell ond llwyddodd Mabon i daclo'r asgellwr a chwythodd y chwiban. Garth Olwg oedd y pencampwyr! **Garth Olwg 17 - Llanhari 5** *Gan Owen Conquer, Blwyddyn 7.*

Llongyfarchiadau hefyd i flwyddyn 8 ar gyrraedd y rownd derfynol. Mae dyfodol Rygbi yma yng Ngarth Olwg yn edrych yn cyffrous iawn!

Llwyddiant Nofio

Llongyfarchiadau enfawr i Carwyn Salmon, Bl. 8 am ddod yn fuddugol yn y dull amrywiol ac am ddod yn 2il yn y dull broga yng Ngala nofio cenedlaethol yr Urdd. Tipyn o gamp yw ennill dros Gymru gyfan. Da iawn ti!

Ar ei feic!

Cystadlodd Rhys Britton blwyddyn 13 dros y Deyrnas Unedig mewn cystadleuaeth Ryngwladol yn Yr Iseldiroedd ar ddechrau Ionawr. Enillodd Rhys dair cystadleuaeth a daeth yn 2il mewn dau arall. Da iawn ti!

Llwyddiant Pêl-droed

Mae Carys Minton (Capten), Lara Watts, Nia Williams, Jenna Hill (Blwyddyn 8) a Megan Bowen, (Blwyddyn 7) wedi eu dewis i gynrychioli carfan pêl-droed merched 2016/17 Sir Forgannwg. Mae Carys a Lara hefyd wedi cael eu dewis ar gyfer Canolfan Perfformiad Merched De Cymru, gyda Carys yn cael ei dewis ar gyfer carfan De Rhanbarth Cymru yn ogystal. Mae'r disgyblion hefyd yn rhan o dîm pêl-droed merched Llanilltud dan 13 oed. Bu'r merched yn chwarae dros Sir Forgannwg yng nghanol y mis ac roedd yn gêm gyffrous iawn a wnaeth orffen yn 0-0 yn erbyn Caerdydd. Da iawn!

Chwarae dros y Gleision

Llongyfarchiadau i Carl Blacker a Gruff Lloyd, Blwyddyn 13 am gael eu dewis i garfan y Gleision dan 18. Maent wedi chwarae sawl gêm dros y clwb yn barod a gwnaethant ennill yn erbyn y Scarlets 31 - 19 ym mis Ionawr.

Chwarae pêl-droed dros Gymru

Llongyfarchiadau i Sam Richards, Blwyddyn 12 sydd yn chwarae pêl-droed i dîm Ysgolion Cymru o dan 18 a Thîm Cymru o dan 18. Maent yn chwarae yn yr Almaen fis nesaf felly pob lwc iddo ef a'r tîm.

Athletau

Llongyfarchiadau i Harri Wheeler-Sexton, Blwyddyn 11 a Daniel John, Blwyddyn 10 a gystadlodd yng Nghystadlaethau Athletau Prydeinig yn Iwerddon ym mis Rhagfyr.

Ydych chi wedi cofrestru?
Derbyniwch negeseuon ar eich ffôn trwy lawr lwytho'r app am ddim. ParentMail

Dilynwch ni @Garth_Olwg, @MathGarth, @GwyddGarth

G-olwg

Ysgol Gyfun Garth Olwg
Newsletter February 2017

Campws Garth Olwg Campus –

A word from the Headteacher:
Much attention has been given to the fact that the school's PFI agreement has come to an end in January 2017. Processes are now in place in order to ensure a smooth transfer as we, and the Local Authority, take over the responsibility for the campus. We are confident that pupils will not notice any changes and that the campus will operate as it does at the moment. So onwards - Campws Garth Olwg!

Collecting for the homeless

Before Christmas, Year 9 and 10 pupils collected goods for homeless people. Some of our pupils had the opportunity to take the gifts to the collection point in Llantrisant in order to see the work going on there. The charity Llamau were very grateful to the pupils for their gifts.

Rapping with Rufus!

On Friday, 9th December, Rufus Mufasa, the rapper and world famous singer visited the school to hold a workshop with Years 9 and 10. Five poems were created with the support of Rufus based on pictures and different countries. My group wrote a piece on Cuban culture and another group on Jamaica. Then, Rufus rapped Welsh and English pieces to the fast beat of her foot, it was amazing! She inspired us to play with words and turn them into a rap or poem. Individuals improvised Welsh language rap at the end using all the techniques taught to us by Rufus. The day was brilliant; everyone learned so much about poetry and rapping. On behalf of everybody I would like to thank Rufus and Mrs Llwyd for inviting her and making the day worthwhile! *By Llew Jones, Year 10.*

The Art and Photography Department's Trip to Berlin

6th form and Year 10 pupils from the Art and Photography Department visited Berlin in January. We were immersed in history on the trip and we learned a lot about the history of Germany. Pupils enjoyed visiting the tourist attractions such as the Reichstad, the television tower and the Holocaust Memorial. In addition, we went on guided tour of the Berlin Wall. One of the pupils said, "it was a shock to hear of the tragic experiences of the families who were separated as a result of the wall". We had unique opportunities to take photographs of the city in the snow while protecting ourselves from the cold! We also had the opportunity to experience and see the city's art in a museum and in a gallery on the eastern side. The artwork here is seen outside, on the Berlin Wall. It was amazing to see and this inspired the work of the art pupils. It was such an interesting trip, and we learnt a number of things about the art, history and culture of the country. All the pupils enjoyed this unique experience and we appreciated the opportunity to visit such an incredible place. On behalf of everyone, I would like to express my gratitude to the teachers for organising this, and we look forward to our next trip, possibly to somewhere warmer! *By Layla Powell Yr.12*

Key Dates: March 6th – 10th - **@yGarth**
(data Capture point 2 – an opportunity for pupils to reflect on their progress over the last 10 weeks)

Half Term Dates	Begins	Ends
1 (Autumn 2016)	5/9/16	21/10/2016
2 (Autumn 2016)	31/10/16	16/12/16
3 (Spring 2017)	3/1/17	17/2/17
4 (Spring 2017)	27/2/17	7/4/17
5 (Summer 2017)	24/4/17	26/5/17
6 (Summer 2017)	5/6/17	21/7/17

INSET DAYS: **February 17th 2017**

Parent Consultation Evenings	
Year 7	**27th April**
Year 8	*12th January*
Year 9 (Options evening)	**2nd March**
Year 9	**16th March**
Year 10	**30th March**
Year 11	13th October
Year 11 (Options Evening)	*26th January*
Year 12 & 13	*1st December*

Sports

Pontypridd Area Cup

Following a long wait, the two teams were ready. The boys walked toward Llanhari and the game began. Everyone was nervous. We tackled hard and won penalties. Ioan tapped the ball and it flew through the air, and we scored an attacking try. Harry's kick wasn't successful but this was still enough for us to enter the second half as the winning team. After a few brief words at half time we had the ball and battled on for a while.

After trying very hard, we were rewarded as Kian managed to score two tries. The boys were exhausted but we continued to battle on. Lanhari's winger ran down the pitch but Mabon succeeded in tackling him and the whistle blew. Garth Olwg were the champions. **Garth Olwg 17 - Llanhari 5**

By Owen Conquer, Year 7.

Congratulations to year 8 as well, who also reached the Final. The future of Rugby here in Garth Olwg is very bright!

Swimming Success!

Congratulations to Carwyn Salmon, Year 8 for winning the medley and for coming 2nd in the breast stroke in the Urdd national swimming Gala. To come first in a National competition is quite an achievement. Well done!

On your bike Rhys!

Rhys Britton, Yr.13 competed for the United Kingdom in an international competition in the Netherlands at the beginning of January. Rhys won three competitions and he came 2nd in two others. Well done!

Footballing success for our girls.

Carys Minton (Captain), Lara Watts, Nia Williams, Jenna Hill (Year 8) and Megan Bowen, (Year 7), have been selected for the 2016/17 Glamorgan County Girls' football squad. Carys and Lara have also been selected for the South Wales Girls' Performance Centre, with Carys also being selected for the South Wales Region squad. The pupils are also members of the Llantwit girls under 13's football team. The girls played for the Glamorgan County in the middle of the month and it was a very exciting game, not reflected in the 0-0 scoreline, against Cardiff. Well done!

Blues Representation.

Congratulations to Carl Blacker and Gruff Lloyd, Year 13 on being selected for the Blues' Under 18 squad. They have already played a number of games for the region including a 31 - 19 win against the Scarlets in January.

Welsh football honours!

Congratulations to Sam Richards, Year 12 who plays football for the Wales Schools under 18's team and the Wales under 18's team. They are playing against Germany next month so good luck to them.

Athletics

Congratulations to Harri Wheeler-Sexton, Year 11 and Daniel John, Year 10 who competed in the British Athletics Competitions in Ireland in December.

Have you registered?
Receive the latest information to your phone by downloading the free app!

ParentMail

Follow us: @Garth_Olwg, @MathGarth, @GwyddGarth